Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
## Y Glebe
## Llandeilo Ferwallt
## SA3 3JP

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt

Ysgol gyfun gymysg 11 i 16 cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o Abertawe yw Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt. Mae 1,105 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 1,096 o ddisgyblion pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2013.

Mae bron i 7% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17%.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith a daw'r rhan fwyaf ohonynt o gefndir gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Mae'r ysgol yn derbyn yr amrediad gallu llawn. Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw 20.5%, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21.5%. Mae gan ychydig dros 4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2%. Mae gan yr ysgol adnodd arbenigol yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith. Yn ychwanegol, mae diagnosis o awtistiaeth gan fwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2015, ar ôl bod yn bennaeth dros dro er 2014. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol, rheolwr cynhwysiant, uwch athro, rheolwr busnes yr ysgol a rheolwr marchnata a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Roedd pob un o'r uwch dîm yn yr ysgol adeg yr arolygiad diwethaf, ond nid oedd unrhyw un ohonynt yn eu swyddi arwain presennol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt wedi sefydlu ethos ble mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol, dysgu a bywyd rhagorol. Mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion disgyblion yn eithriadol o dda ac mae'r addysgu yn cynorthwyo disgyblion i gyrraedd safonau uchel. Mae'r ysgol yn cynllunio'n ddychmygus a hyfedr i ddatblygu medrau disgyblion. Ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol, ac mae staff yn dangos parodrwydd i groesawu syniadau newydd ac ymdrechu am welliant parhaus o ran datblygu'r ysgol gyfan, yn y cwricwlwm, ac yn eu haddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn, ac maent yn cyflawni canlyniadau cyson uchel yng nghyfnod allweddol 4.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Mireinio prosesau cynllunio gwelliant i ganolbwyntio'n fwy manwl gywir ar feysydd penodol i'w datblygu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth, ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau cymdeithasol, dysgu a medrau bywyd disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn, ac maent yn cymathu hyn â gwybodaeth newydd i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn y gorffennol am dwristiaeth yn Goa i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o eco-dwristiaeth yn Borneo. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau dadansoddol ac ymchwiliol yn dda mewn ystod eang o gyd-destunau gwahanol. Maent yn ymdrin â thasgau datrys problemau yn hyderus, gan gyfiawnhau eu hatebion ag esboniadau clir a gwneud cysylltiadau meddylgar â meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, yn ystod yr 'wythnos medrau', mae disgyblion Blwyddyn 8 yn casglu a dadansoddi tystiolaeth i gefnogi neu wrthwynebu datblygu Morlyn Abertawe.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Mae llawer ohonynt yn huawdl ac yn siarad yn hyderus. Gwnânt gyfraniadau tra-ystyriol at drafodaeth ddosbarth. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gofyn cwestiynau sylwgar i'w hathro a'u cyfoedion i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain a dealltwriaeth ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o ffynonellau i ddethol a threfnu gwybodaeth berthnasol. Maent yn arfarnu amrywiaeth o destunau i ddatblygu medrau rhesymu a dod i gasgliad yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad ystyriol o ddewisiadau iaith, ffurf ac arddull awduron. Er enghraifft, ym mlwyddyn 9, mae disgyblion yn archwilio darn dadleuol gan Jeremy Clarkson i nodi nodweddion rhethregol a'u heffaith yn llwyddiannus. Mae rhai disgyblion yn darllen yn arbennig o dda ac mae hyn yn eu galluogi i wneud cysylltiadau argyhoeddiadol rhwng testunau a'u hysgrifennu eu hunain. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau datblygedig wrth gymryd nodiadau, y maent yn eu defnyddio i ddadansoddi testunau ysgrifenedig a chlipiau fideo fel ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at amrywiaeth o ddibenion. Maent yn golygu ac ailddrafftio'u gwaith i fireinio eu hysgrifennu'n llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu gyda sillafu, atalnodi a gramadeg cywir, ac yn defnyddio geirfa eang. Maent yn strwythuro eu hysgrifennu'n dda i gyflwyno darnau creadigol a dadleuon sy'n cynnwys rhesymeg dda, er enghraifft wrth arfarnu achosion pwysig y rhyfel cartref. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus a gyda balchder.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu rhifedd yn llwyddiannus i wella'u dysgu mewn pynciau priodol. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi gwybodaeth am nifer y marwolaethau ar y Titanic, gan gymharu'r cyfraddau goroesi yn ôl dosbarth a rhywedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwerth chweil mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn cymhwyso ac ymarfer y medrau hyn mewn ystod addas o gyd-destunau, er enghraifft wrth ddefnyddio iaith raglennu berthnasol i gynllunio cwis amlddewis, neu wrth gynhyrchu dyluniadau peirianneg â chymorth cyfrifiadur.

O ganlyniad i'r cynnydd cryf a wna disgyblion dros gyfnod, ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg yn gyson. Mae'r disgyblion mwy abl yn gwneud yn eithriadol o dda. Mewn llawer o bynciau, mae cyfran uchel o ddisgyblion yn cyflawni'r graddau uchaf mewn TGAU. Mae bechgyn, merched a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na'r grwpiau hyn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Mae'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol yn gyson. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Mae ganddynt amgyffrediad cadarn o sillafu a gramadeg sylfaenol. Maent yn ynganu'n gywir ac yn siaradwyr hyderus.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o les. Caiff hyn effaith hynod gadarnhaol ar y safonau y maent yn eu cyflawni ac ar eu datblygiad personol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog ac annibynnol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn gwersi ac yn ddysgwyr brwdfrydig. Gall y rhan fwyaf ohonynt weithio'n annibynnol am gyfnodau cynaledig, ac maent yn barod i ymgymryd â phrofiadau a thasgau newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos lefelau uchel iawn o ddyfalbarhad yn eu dysgu, yn enwedig pan fyddant yn ymgymryd â gweithgareddau heriol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a grwpiau, gan wrando'n ofalus ar syniadau disgyblion eraill, yn ogystal â mynegi eu safbwyntiau eu hunain yn glir a chydlynus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a moesgar â phobl eraill. Maent yn ymateb yn aeddfed i oedolion ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn trafodaethau am faterion moesol a moesegol a materion cyfoes. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd staff yn delio'n dda ag unrhyw faterion sy'n codi, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n aeddfed i lywio agweddau ar waith yr ysgol trwy'r cyngor ysgol ac ystod o weithgareddau eraill, fel rhoi adborth i adrannau pwnc yn awgrymu gwelliannau i brofiadau dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall yr angen am ffordd iach o fyw a phwysigrwydd diet priodol i gyflawni hyn. Mae cyfran uchel iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a ddarperir yn rhaglen allgyrsiol yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn dda trwy gymryd rhan mewn ystod eang o waith elusennol a chymunedol, gan godi symiau mawr o arian ac ymwybyddiaeth o faterion pwysig yn lleol a ledled y byd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd byd-eang trwy brosiectau fel y Caffi Coch (Red Café), lle maent yn dysgu am gynaliadwyedd a sut i greu cysylltiadau cymunedol cryf.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain cryf a lefelau uchel o hunanhyder. Maent yn cymhwyso'r priodoleddau hyn yn llwyddiannus mewn ystod eang o gyd-destunau fel gweithredu fel swyddogion, mentoriaid neu diwtoriaid ar gyfer disgyblion iau, hyfforddi athrawon mewn medrau TGCh, neu ddysgu chwaraeon mewn ysgolion cynradd partner.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol.

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol gref, y maent yn ei defnyddio'n effeithiol i gymell ac ennyn diddordeb eu dosbarthiadau. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio hynod gadarnhaol gyda disgyblion, a'r disgwyliadau uchaf ohonynt. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol a sensitif. Mae'r athrawon hyn yn dathlu ymdrech, cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn gwersi'n dda ac mae llawer ohonynt yn dangos brwdfrydedd arbennig am eu pwnc a'u dysgu, ac mae hyn yn ysbrydoli disgyblion i gyflawni safonau uchel.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi ar gyfer dilyniant yn effeithiol. Maent yn nodi nodau ar gyfer cynnydd disgyblion sy'n ategu gweithgareddau dysgu perthnasol a heriol sydd wedi'u cynllunio'n dda. Maent yn esbonio cysyniadau cymhleth yn hyfedr, yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac maent yn fodelau iaith cryf. Yn eu disgwyliadau o ddisgyblion, mae athrawon yn mynnu geirfa sy'n benodol i bwnc a geirfa dechnegol, ac adlewyrchir hyn yn ansawdd iaith lafar y disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn creu adnoddau diddorol, deniadol ac ysgogol i annog disgyblion i ymarfer eu medrau, datblygu eu syniadau ac archwilio syniadau'n greadigol. Maent yn defnyddio arddangosiadau ac enghreifftiau o waith rhagorol ar gyfer disgyblion yn rheolaidd, sy'n meithrin disgwyliadau uchel. Mae gan lawer o athrawon wybodaeth fanwl am anghenion disgyblion unigol, a defnyddiant y mewnwelediad hwn i addasu tasgau ac adnoddau dysgu'n sensitif i gynorthwyo a herio disgyblion o bob gallu. Pan fo'n briodol, mae cynorthwywyr addysgu'n darparu cymorth gwerthfawr i ddysgu disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy ystod gyfoethog o dasgau darllen ac ysgrifennu. Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar y medrau hyn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion yn y dosbarth ac yn eu gwaith cartref.

Caiff ychydig iawn o wersi eu cyfarwyddo'n ormodol gan yr athro. Yn y gwersi hyn, mae rhediad y dysgu naill ai'n rhy gyflym neu'n rhy araf. Mae hyn yn rhwystro ymgysylltiad disgyblion, ac nid yw'n galluogi iddynt wneud cynnydd digonol yn eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn holi'n fedrus er mwyn datblygu syniadau disgyblion a nodi bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi adborth rheolaidd, clir a phenodol i ddisgyblion, sy'n cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd gwaith disgyblion. Mae ffocws cadarn ar gywirdeb technegol disgyblion yn eu marcio, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar sillafu, atalnodi a gramadeg disgyblion trwy eu hunangywiro. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella'u gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mewn gwersi neu mewn adborth ysgrifenedig, nid yw athrawon yn rhoi meini prawf llwyddiant digon manwl gywir i ddisgyblion i'w helpu i arfarnu eu gwaith a'i wella.

Mae'r cwricwlwm yn hynod effeithiol o ran bodloni anghenion disgyblion unigol ar draws y ddau gyfnod allweddol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ennyn diddordeb disgyblion mewn gwersi, at ddeilliannau rhagorol a lles disgyblion. Yn benodol, rhoddir pwyslais cryf ar ddarparu ar gyfer anghenion pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol a buddiol o gymwysterau academaidd a galwedigaethol. Enghraifft benodol o'r ysgol yn ymateb i anghenion unigol yw'r cyfle i ddisgyblion ennill cymwysterau ychwanegol fel Lladin a ffotograffiaeth i ymestyn eu profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn creu cynlluniau a phrosiectau cyfoethogi llawn dychymyg sy'n darparu cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddatblygu ac ymestyn eu medrau. Mae'r 'wythnosau sgiliau' a'r 'diwrnodau her' yng nghyfnod allweddol 3 yn darparu sylfaen gref ar gyfer dysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth, creadigrwydd a pharodrwydd i fentro.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod helaeth o weithgareddau cyfoethogi i niferoedd uchel o ddisgyblion gael profiadau gwerthfawr i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, caiff myfyrwyr celf gyfleoedd gwerth chweil i weithio gyda gemyddion a dylunwyr setiau lleol, ac mae myfyrwyr cyfrifiadur a TGCh yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgol leol i ddatblygu medrau codio. Mae'r cyfleoedd hyn yn ysbrydoli disgyblion ac yn eu paratoi yn arbennig o dda ar gyfer addysg bellach a chyflogaeth yn y dyfodol.

Ceir cynllunio hynod effeithiol ar gyfer dilyniant mewn medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad i hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos hyder eithriadol o dda a gallu aeddfed i fynegi eu barn, ac mae'n rhoi'r offer iddynt archwilio pynciau heriol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r holl ddisgyblion sydd angen rhagor o ymyrraeth o ran llythrennedd a rhifedd. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh, ac mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg, ei hethos a'i diwylliant ei chydlynu'n dda. Caiff yr iaith Gymraeg a'i diwylliant eu dathlu, a rhoddir amlygrwydd iddynt ar draws y cwricwlwm. Mae gweithgareddau'n cynnwys teithiau preswyl a fynychir gan nifer dda i Lan-llyn, cyngerdd Cymraeg ar gyfer y gymuned i ddathlu llwyddiannau'r enillwyr yn Eisteddfod yr ysgol, a 'diwrnod Shwmae', sy'n boblogaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus o ran cynnal ethos gofalgar a chynhwysol. Mae disgyblion yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da. Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad cryf at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel a pharch at bobl eraill yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion a'r cynnydd a wnânt yn eu dysgu a'u datblygiad personol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a gynlluniwyd yn ofalus yn effeithiol iawn o ran cefnogi lles disgyblion, ac o ran datblygu medrau personol a

chymdeithasol. Mae disgyblion yn dysgu parchu gwerthoedd a chredoau pobl eraill, ac mae llawer ohonynt yn datblygu lefelau uchel iawn o hunanhyder. Mae'r ysgol yn annog ymglymiad gweithredol disgyblion ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu medrau trwy gymryd rhan yn y cyngor ysgol a grwpiau polisi eraill a arweinir gan ddisgyblion, gan weithredu fel mentoriaid neu diwtoriaid ar gyfer disgyblion iau, neu wirfoddoli i arwain gweithgareddau yn y gymuned leol. Mae hyn yn eithriadol o effeithiol o ran meithrin medrau gwneud penderfyniadau a hunan-barch llawer o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd ati i annog disgyblion i wneud dewisiadau am ffordd iach o fyw, ac mae darpariaeth addas ar gyfer cynorthwyo disgyblion i fwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd helaeth a ddarperir i gymryd rhan mewn ymarfer corff trwy'r ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth gref iawn ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion mewn gwersi celf, cerddoriaeth a drama ac mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft mewn grwpiau celf, ffasiwn a cherddorol, a chynyrchiadau dramatig a cherddorol yr ysgol.

Mae cynllunio pontio hynod effeithiol ag ysgolion cynradd yn galluogi disgyblion Blwyddyn 7 i ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy'n gwneud penderfyniadau pwysig ar ddiwedd cyfnodau allweddol 3 a 4. Mae hyn yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod gan ddisgyblion ddyheadau addas, a'u paratoi ar gyfer addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant .

Mae system gynhwysfawr i fonitro cynnydd academaidd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r system hon yn eithriadol o dda i ddathlu cyflawniad gyda disgyblion a rhieni, yn ogystal â nodi unrhyw danberfformio neu rwystrau rhag dysgu. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ymyrryd yn brydlon i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn darparu gwybodaeth fanwl am gynnydd ac ymdrech ym mhob pwnc, ac maent yn cynnwys targedau ystyrlon ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â phwnc.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth effeithiol, yn adnodd arbenigol yr awdurdod lleol a gynhelir gan yr ysgol, ac mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Caiff disgyblion yn yr adnodd arbenigol eu hintegreiddio'n dda ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae staff yn gweithio'n gynhyrchiol gyda rhieni ac asiantaethau allanol i roi cymorth priodol iddynt. Mae cynlluniau datblygu unigol yn darparu targedau buddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn rhoi cyngor gwerthfawr i athrawon pwnc ar sut i fodloni eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau unigol yn ddigon trylwyr.

Mae gan yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau llwyddiannus ar gyfer gwella presenoldeb a hyrwyddo ymddygiad a hunanddisgyblaeth dda. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wobrau a chosbau y mae disgyblion yn eu deall yn dda. Mae'r ffaith fod staff yn rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn gyson yn cyfrannu'n sylweddol at y lefelau da o bresenoldeb a'r safonau ymddygiad uchel a ddangosir gan ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at y synnwyr cryf o gymuned ac ymrwymiad i werthoedd a nodau'r ysgol. Mae hyn wedi cael effaith gynaledig ar y ddarpariaeth ansawdd uchel, y safonau rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion a'u lefelau lles eithriadol o dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gymhellol ac ystyriol. Ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth, mae wedi sefydlu amgylchedd colegol a chydweithredol grymus. Mae cenhadaeth yr ysgol i greu 'cymuned ddysgu ragorol sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr' yn amlwg ym mhob agwedd ar ei bywyd a'i gwaith.

Ceir llinellau cyfathrebu effeithiol ar draws yr ysgol. Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r staff wedi'u hamlinellu'n glir. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall pob aelod o gymuned yr ysgol ei gyflawni.

Mae uwch arweinwyr yn dirprwyo cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae hyn wedi helpu grymuso aelodau o staff, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn ymddiried ynddynt. Ceir cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygiad staff, er enghraifft fel cydlynwyr blaenoriaethau strategol neu drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Mae llawer o staff yn cyfrannu'n frwdfrydig at waith ystod eang o bwyllgorau. Mae'r rhain yn cynnwys y pwyllgorau dwyieithrwydd, safonau, cwricwlwm ac asesu a sicrhau ansawdd. Trwy eu hymglymiad mewn grwpiau o'r fath, caiff y staff hyn gyfleoedd gwerthfawr i arwain mentrau penodol, fel y strategaeth 'Pontio'r Bwlch', a hyrwyddo gwelliant mewn meysydd allweddol eraill o waith yr ysgol.

Ceir trefniadau rheoli llinell systematig. Mae cyfarfodydd rhwng arweinwyr y cwricwlwm a'u rheolwyr llinell yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar berfformiad disgyblion ac ar agweddau allweddol ar y ddarpariaeth. Maent yn cynnig ffordd effeithiol o gynorthwyo'r arweinwyr hyn yn eu gwaith tra'n eu dwyn i gyfrif hefyd, lle bo'n briodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at hyrwyddo gweithredu blaenoriaethau penodol yr ysgol ac at gefnogi datblygiad proffesiynol staff unigol.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu trosolwg effeithiol o holl feysydd gwaith yr ysgol. Mae'n cyfrannu'n llawn at bennu cyfeiriad a blaenoriaethau strategol yr ysgol, ac mae'n monitro cynnydd â chynllun gwella'r ysgol yn rheolaidd. Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth clir a her briodol i'r pennaeth a'r staff.

Mae gan yr ysgol drefniadau sefydledig i sicrhau ansawdd ei holl feysydd gwaith. Mae ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd yn cynnwys rhaglen systematig o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion, yn ogystal ag ymgynghori'n rheolaidd â disgyblion a rhieni. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn fanwl a chywir. Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir ac yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella yn dda. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol addas, amcanion clir a mesuradwy, a chamau gweithredu priodol i gefnogi gwelliant. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r ysgol a llawer o gynlluniau adrannol yn canolbwyntio'n ddigon cyson ar wella agweddau penodol ar addysgu a datblygu medrau disgyblion.

Ceir diwylliant cryf o welliant parhaus, sy'n effeithio'n sylweddol ar waith yr ysgol. Mae staff yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff cysylltiol, er enghraifft i gynorthwyo disgyblion â dyslecsia, neu ddefnyddio Braille ac iaith arwyddion yn briodol. Mae uwch arweinwyr wedi nodi arfer ragorol yn dda ac maent wedi datblygu cyfleoedd buddiol i rannu'r arfer hon yn yr ysgol ac yn ehangach. Mae llawer o staff yn cymryd rhan mewn partneriaethau gwerthfawr â darparwyr eraill ac asiantaethau allanol sy'n cefnogi eu harfer broffesiynol yn dda. Mae rhai athrawon yn gweithio fel ymarferwyr arweiniol i ddatblygu a gwella arfer mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm yn yr ysgol a ledled y rhanbarth. Mae datblygu'r cwricwlwm a'r cymunedau dysgu proffesiynol hynod effeithiol hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd y ddarpariaeth ac at y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu difyr a bywiog. Mae'r staff cymwys a phrofiadol yn darparu addysgu a chymorth bugeiliol o ansawdd da. Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r pwyllgor cyllid yn monitro cyllid ac adnoddau'r ysgol yn drylwyr. Dyrennir cyllid yn briodol yn unol â blaenoriaethau cytûn, fel caffael y ddau gae chwaraeon synthetig yn ddiweddar, a buddsoddi mewn llyfrynnau medrau deniadol ac addysgiadol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau effeithlonrwydd a lleihau costau staffio trwy fireinio'r strwythur arweinyddiaeth a dirprwyo cyfrifoldebau'n ehangach. Mae wedi cyflwyno strategaethau buddiol i hybu incwm, er enghraifft trwy ddefnydd gwell o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned.

Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau penodol fel y Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol i gryfhau darpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2018